

Camymddwyn Academaidd / Uniondeb Academaidd

Os mae gan y Brifysgol bryderon ynghylch y gwaith rydych chi wedi cyflwyno, a p'un ai eich gwaith chi ydi o i gyd, gallwch chi gael eich cyfeirio at y **Weithdrefn Uniondeb Academaidd.** Gall hyn gynnwys pryderon o gwmpas llên-ladrad, cydgynllwynio (gweithio gydag eraill a chyflwyno'r gwaith fel eich un chi), llunio data ffug, defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (DA), twyllo mewn arholiadau, neu unrhyw ffurf arall o gamymddwyn academaidd.

Sut gallwn ni eich cefnogi chi?

Gall ein Gwasanaeth Cyngor eich cefnogi a'ch tywys chi trwy'r Weithdrefn Uniondeb Academaidd. Byddwn ni'n esbonio'r honiadau a godir, eich helpu chi i ddeall y broses, edrych dros y dystiolaeth efo chi, eich cefnogi chi wrth i chi baratoi eich ymateb, a mynychu cyfarfodydd efo chi lle mae'n addas.

Paratoi ar gyfer eich Cyfarfod

Os cewch chi eich gwahodd i gyfarfod Uniondeb Academaidd, mae'n bwysig i baratoi o flaen llaw. Rydyn ni'n argymell eich bod chi:

- Yn darllen y llythyr neu e-bost sy'n eich gwahodd i'r cyfarfod yn ofalus. Dylai'r rhain ddweud wrthych chi pa fodiwl, asesiad neu ddarn o waith sy'n cael ei ymchwilio.
- Yn edrych dros y gwaith dan sylw ac ystyried os gallwch chi ddarganfod unrhyw gamgymeriadau neu broblemau.
- Yn casglu unrhyw dystiolaeth berthnasol, fel fersiynau drafft o'ch gwaith, nodiadau, adnoddau ymchwil, cyfeirnodau neu gofnodion llyfrgell, a all helpu i esbonio sut gwnaethoch chi gwblhau'r asesiad.
- Yn adlewyrchu ar beth ddigwyddodd os mae'r pryderon i wneud efo dulliau annheg, p'un ai oedden nhw'n bwrpasol neu'n ddamweiniol, a pharatoi i esbonio'ch gweithredoedd yn onest ac yn glir.
- Yn casglu tystiolaeth o unrhyw amgylchiadau personol yr hoffech chi'r Brifysgol i ystyried ac esbonio sut mae'r rhain yn berthnasol i'r pryderon sy'n cael eu hymchwilio.
- Yn meddwl am beth o'ch safbwynt chi yr hoffech chi'r Brifysgol i ddeall, ac i baratoi unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.
- Yn gwrando'n ofalus yn ystod y cyfarfod, yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac yn cymryd eich amser cyn ymateb.

Beth sy'n digwydd yn y cyfarfod?

Caiff y mwyafrif o bryderon eu hymchwilio i ddechrau gan y Swyddog Uniondeb Academaidd o'ch Ysgol chi.

Gall achosion mwy difrifol, pryderon ailadroddus, neu achosion sy'n ymwneud ag asesiadau sy'n werth mwy na 20 credyd eu cyfeirio at Banel Ymchwilio. Caiff y panel ei ffurfio o dri aelod o staff academaidd ac un o'r Swyddogion Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr. Bydd y panel yn ystyried y dystiolaeth, clywed eich ymateb, a phenderfynu os mae'r Rheoliadau Uniondeb Academaidd wedi cael eu torri.

Yn ystod y cyfarfod, bydd y Brifysgol yn esbonio'r pryderon a godwyd am eich gwaith a'r rhesymau pam mae'n credu fod y Rheoliadau Uniondeb Academaidd o bosib wedi cael eu torri. Fel arfer bydd y dystiolaeth sy'n cael ei ystyried yn cael ei ddangos i chi, fel adroddiad Turnitin neu enghreifftiau o ddeunyddiau ffynhonnell sy'n cyd-fynd â'ch gwaith.

Bydd gennych chi wedyn y cyfle i esbonio sut gwnaethoch chi gwblhau'r asesiad neu baratoi at yr arholiad ac ymateb i'r pryderon a godwyd. Dyma'ch cyfle chi i ddarparu eich safbwynt chi, esbonio sut ddigwyddodd unrhyw debygrwydd, a rhannu unrhyw dystiolaeth neu amgylchiadau personol perthnasol.

Mae'n bwysig bod yn onest ac yn agored trwy'r cyfarfod. Os ydych chi wedi gwneud camgymeriad, ar bwrpas neu'n ddamweiniol, mae esbonio beth ddigwyddodd a chymryd cyfrifoldeb yn dangos onestrwydd, hunan ymwybyddiaeth, a pharodrwydd i ddysgu o'r profiad.

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i fyfyrwyr ymwneud yn agored â'r ymchwiliad. Gall eich lefel chi o onestrwydd, cydweithrediad ac adlewyrchiad gael ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu canlyniad unrhyw gosb, ynghyd â'r holl dystiolaeth arall a ystyriwyd. Dydi bod yn onest ddim yn sicrhau canlyniad penodol, ond mae'n gallu helpu i ddangos eich bod chi'n deall difrifoldeb y sefyllfa ac eich bod chi yn barod i gynnal uniondeb academaidd yn y dyfodol.

Canlyniadau Posib

Yn dilyn yr ymchwiliad ar Lefel Ysgol, gall y canlyniadau gynnwys:

- Dim camau pellach – os na chaiff yr honiad ei brofi.
- Ymarfer academaidd gwael – lle dydi camymddwyn academaidd ddim yn cael ei brofi ond mae yna bryderon am eich sgiliau academaidd. Gall cosb dal ddigwydd.
- Marcio'n rhannol – lle dim ond rhan fach o'r gwaith sydd wedi ei effeithio a ni chaiff y rhan honno ei marcio.
- Gradd o 0% ar gyfer yr asesiad – lle mae rhan sylweddol o'r gwaith wedi ei effeithio neu mae'r camymddwyn yn cael ei ystyried fel camymddwyn bwriadol.
- Gradd o 0% ar gyfer y modiwl – yn yr achosion mwyaf difrifol lle mae tystiolaeth eang o gamymddwyn academaidd bwriadol.

Os mae Panel Ymchwilio yn cynnal honiadau'r camymddwyn academaidd, y canlyniadau posibl ydi:

Atodiad 4. Cosbau nodweddiadol mewn achosion o gamymddwyn academaidd a gyfeirir at Banel Ymchwilio[4]

Math o Gamymddwyn Academaidd	Cosb Is[1]	Cosbau Arferol[2]	Cosbau Uwch[3]
Camymddwyn Academaidd mewn Arholiadau neu Waith Cwrs	• Dyfarnu 0% i waith asesiedig • Caniatáu ailsefyll/ailgyflwyno • Capio marc y gwaith asesiedig ar 40% (Lefel 4-6) neu 50% (Lefel 7) • Opsiwn i ganiatáu i'r myfyriwr ailgyflwyno heb y cap ond os bydd y Panel yn dewis yr opsiwn hwn rhaid egluro wrth yr ysgol pam y daethpwyd i'r penderfyniad hwnnw	• Dyfarnu 0% i waith asesiedig • Caniatáu ailsefyll/ailgyflwyno dim ond os y bydd angen ac os y caniateir hynny o dan reolau'r Brifysgol • Capio marc y modiwl ar ôl ailsefyll ar 30% (Lefel 4-6) neu 40% (Lefel 7)	• Dyfarnu 0% i waith asesiedig • Peidio â chaniatáu ailsefyll/ailgyflwyno ac eithrio i wneud yn iawn am fethiant fel myfyriwr rhan amser/allanol.
Camymddwyn Academaidd mewn Project Ymchwil Meistr (Traethawd Hir)	• Caniatáu ailgyflwyno'r thesis cyfan, neu ddim ond caniatáu newidiadau i adrannau/penodau penodol yn unig	• Dyfarnu 0% • Caniatáu ailgyflwyno ond capio'r marc ar 50%	• Dyfarnu 0% • Peidio â chaniatáu ailgyflwyno project ymchwil (caniatáu Tystysgrif neu Ddiploma ôl-radd)
Camymddwyn Academaidd mewn traethawd ymchwil ôl-radd	• Caniatáu ailgyflwyno'r thesis, ond dim ond caniatáu newidiadau i adrannau/penodau penodol	• Arholwyr i ailystyried y thesis a phenderfynu, gan anwybyddu adrannau a ddiffiniwyd, a ddylid dyfarnu gradd i'r thesis (neu ddosbarthiad gradd is pan fo'r opsiwn hwnnw ar gael)	• Peidio â chaniatáu ailystyried nac ailgyflwyno'r thesis. Ni ddylid ystyried rhoi dosbarthiad gradd is i ymgeisydd oni bai ei fod/ei bod eisoes wedi cyflawni'r meini prawf ar gyfer cymhwyster ymadael a bennwyd i'r rhaglen. •

Apêl

Gallwch chi apelio penderfyniad y Panel Ymchwilio. Rhaid i Apeliadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i ***uniondebacademaidd@bangor.ac.uk*** o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn penderfyniad y panel.

Unwaith i chi gwblhau prosesau mewnol y Brifysgol a'ch bod chi dal yn credu na gafodd eich cais ei ddatrys yn deg, gallwn ni eich cynghori chi ar godi eich pryderon i **Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol (OIA).** Mae'r OIA yn sefydliad annibynnol sydd yn edrych dros gwynion myfyrwyr. Rhaid i chi gwblhau prosesau mewnol y Brifysgol cyn i chi allu gofyn i'r OIA ystyried eich cais.

Os ydych chi'n cael trafferth efo'r astudiaethau academaidd, mae adnoddau cefnogi'r Brifysgol ar gael i chi. Bydden ni hefyd yn argymell i chi gysylltu efo'r tiwtor personol os ydych chi'n cael trafferth.